# Cynyddu eich Buddion Pensiwn

## Cyflwyniad

Fel aelod o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), rydych eisoes yn talu cyfraniadau o’ch cyflog i adeiladu pensiwn. Fodd bynnag, mae dwy ffordd y gallwch gynyddu eich buddion pensiwn yn y CPLlL. Gelwir un yn **Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol** (CGY) a’r llall yw **Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol** (CPY).

## Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Mae CGY yn bot o arian y gallwch chi gyfrannu ato a’i adeiladu i roi buddion ychwanegol i chi ochr yn ochr â’ch buddion CPLlL. Caiff y cyfraniadau eu didynnu o’ch tâl cyn i’r dreth cael ei chyfrifo. Felly, os ydych yn drethdalwr 20% ac yn dymuno rhoi £100 i mewn i’ch pot CGY pob mis, dim ond £80 sydd angen i chi ei dalu, gan fod yr £20 sy’n weddill yn dod o’r rhyddhad treth. Mae gennych gyfrif CGY eich hun a gallwch ddewis sut mae eich pot o arian chi yn cael ei fuddsoddi gyda’r darparwr CGY.

Mae’r CGY yn ffordd hyblyg o gynyddu eich buddion pensiwn. Gallwch dalu hyd at 100% o’ch tâl pensiynadwy (llai didyniadau statudol fel Yswiriant Gwladol a Chyfraniadau Pensiwn) i mewn i’ch cronfa CGY. Gallwch hefyd gynyddu neu leihau'r cyfraniadau yr ydych yn dymuno eu talu, ynghyd â newid sut mae’r arian yn eich cronfa CGY yn cael ei fuddsoddi.

Os byddwch yn marw tra eich bod dal yn gweithio, bydd eich cronfa CGY yn cael ei defnyddio fel grant marwolaeth ychwanegol ac yn cael ei thalu allan i’ch buddiolwr / buddiolwyr, yn unol â’ch Ffurflen Enwebiad Grant Marwolaeth. Os nad ydych wedi gwneud Dymuniad Grant Marwolaeth, bydd yr arian yn cael ei dalu i’ch Ystâd.

Mae gan eich Cyflogwr hefyd ddisgresiwn i dalu tuag at eich CGY. Caiff hyn ei adnabod fel CGY Cost a Rennir. Bydd angen i chi wirio gyda'ch Cyflogwr i weld beth yw eu polisi ynglŷn â CGY.

### Opsiynau pan fyddwch yn ymddeol o'r CPLlL

- Pan ychwanegir at y Gwerth Cyfalaf o'ch buddion CPLlL, mae'n bosib tynnu hyd at 100% o'ch cronfa CGY fel arian parod di-dreth os nad yw'r gwerth cyfun yn fwy na 25% o derfyn Gwerth Cyfalaf CThEM.

  Os yw'r gwerth cyfun yn uwch na'r terfyn yma, mae'n golygu na allwch gymryd 100% o'ch cynllun CGY fel arian parod di-dreth. Bydd y swm sy'n weddill wedyn yn cael ei ddefnyddio i brynu swm ychwanegol o bensiwn blynyddol yn y CPLlL neu mewn man arall.

- Gallwch ddefnyddio eich cynllun CGY i brynu pensiwn blynyddol ychwanegol yn y CPLlL.

- Mae'n bosib defnyddio eich cronfa CGY i brynu pensiwn blwydd-dâl gan y darparwr mewnol (os yw'r opsiwn yma ar gael) neu gan unrhyw ddarparwr arall o'ch dewis chi (pensiwn sydd yn swm sefydlog o arian a delir pob blwyddyn tan ddigwyddiad penodol, fel marwolaeth).

## Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY)

Mae CPY yn gontract i brynu swm ychwanegol o bensiwn blynyddol o'r Gronfa Bensiwn. Ar 1 Ebrill 2014, rhoddwyd cap o £6,500 y flwyddyn er mwyn cyfyngu faint o bensiwn blynyddol y gallwch ei brynu yn y CPLlL. Mae'r cap hwn wedi cynyddu gyda chwyddiant bob blwyddyn ers hynny. Dangosir y cap cyfredol ar y cyfrifiannell CPY ar-lein:

Paying more :: LGPS (lgpsmember.org)

Gallwch ddewis prynu'r pensiwn ychwanegol trwy dalu lwmp swm unwaith neu drwy ledaenu'r gost dros nifer penodol o flynyddoedd cyflawn (isafswm o flwyddyn). Gellir cymryd y cyfraniadau hyn o'ch cyflog yn yr un modd â'ch cyfraniadau pensiwn. Fe'u cymerir hefyd cyn i'ch treth gael ei chyfrifo, felly os ydych yn talu treth byddwch yn derbyn rhyddhad treth ar eich cyfraniadau yn awtomatig.

Os ydych chi'n talu trwy wneud taliad lwmp swm unwaith, gallwch wneud hynny naill ai trwy ddidyniad o'ch cyflog neu trwy wneud taliad yn uniongyrchol i'r Gronfa Bensiwn. Os talwch yn uniongyrchol i'r Gronfa, bydd angen i chi siarad gyda CThEM i drefnu i'r rhyddhad treth perthnasol gael ei adennill, gan na fydd y Gronfa Bensiwn yn talu hwn yn ôl i chi.

Bydd unrhyw bensiwn ychwanegol a brynir yn cael ei ychwanegu at eich pensiwn blynyddol am weddill eich oes. Petaech yn marw, ni fydd unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol yn daladwy i'ch goroeswyr am y pensiwn ychwanegol a brynwyd (gan fod y CPY yn prynu pensiwn ychwanegol i chi yn unig).

Os byddwch chi'n hawlio eich pensiwn cyn yr Oedran Pensiwn Arferol (OPA), bydd gostyngiadau ymddeol yn gynnar yn cael ei rhoi ar eich pensiwn a'r pensiwn ychwanegol a brynwyd gennych trwy eich CPY.

Mae cost y CPY yn seiliedig ar eich oedran a rhyw gan ddefnyddio ffactorau a ddarperir gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

Efallai y bydd eich Cronfa Bensiwn yn gofyn i chi gael archwiliad meddygol gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig i gael tystysgrif, ar eich cost eich hun, i gadarnhau eich bod mewn 'iechyd rhesymol dda'.

Gallwch ddefnyddio'r linc isod i gyfrifo'r gost o CPY:

[Buy extra pension calculator :: LGPS (lgpsmember.org)]

## Opsiynau Eraill

Mae trefniadau pensiwn eraill ar gael hefyd, sydd ar wahân i'ch pensiwn CPLlL. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrannu tuag at Gynllun CGY Rhydd (CGYRh) neu Gynllun Pensiwn Personol / Cynllun Pensiwn Rhan-ddeiliad.

Nodwch os gwelwch yn dda, gyda CGYRh dim ond 25% o'r gronfa CGY gallwch chi ei gymryd fel arian parod di-dreth a'r gweddill fel blwydd-dâl, felly maen nhw'n gweithio'n wahanol i CGY y CPLlL. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr opsiynau eraill hyn mewn banciau, cymdeithasau adeiladu neu gwmnïau yswiriant.

## Lwfans Blynyddol

Os ydych chi'n ystyried cynyddu eich pensiwn CPLlL trwy swm mawr neu, os ydych chi'n ystyried gwneud taliadau CGY sylweddol pob blwyddyn dreth, gallai olygu eich bod yn mynd y tu hwnt i'r terfyn Lwfans Blynyddol.

Y Lwfans Blynyddol yw'r swm y caiff gwerth eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn heb i chi orfod talu tâl treth. Os yw gwerth eich cynilion pensiwn mewn blwyddyn (gan gynnwys cynilion pensiwn y tu allan i'r CPLlL) yn fwy na'r terfyn lwfans blynyddol, gall y gormodedd gael ei drethu fel incwm. Y terfyn ar y lwfans blynyddol cyfredol yw £60,000.

Efallai yr hoffech ofyn am **Gyngor Ariannol Annibynnol** ynglŷn â hyn, gan nad yw'r Gronfa Bensiwn yn gallu rhoi unrhyw gyngor ar y mater hwn.

## Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn Gwynedd:

Ffôn: 01286 679982
E-bost: pensiynau@gwynedd.llyw.cymru

## Ymwadiad

Nid yw'r Gronfa Bensiwn yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol.
Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai'r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: https://unbiased.co.uk/
Helpwr Arian: Choosing a financial adviser (moneyhelper.org.uk)